# Cymraeg i Bawb - TAR Cynradd ac Uwchradd 2023-24

## Darlith 1: 28.9.23
## Rhannau Ymadrodd

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

eleri.powell@pcydds.ac.uk

www.athrofa.cymru

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORiaith

CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

# Newid i'r drefn arferol...

# Nod

- Dysgu am rannau ymadrodd a pham eu bod yn bwysig.



# Tasg gynhesu

| Geirfa |
|---|
| Rhagenw/au<br>*(pronoun/s)* |
| Adferf/ai<br>(Adverb/s) |
| Arddodiad/Arddodiaid<br>*(preposition/s)* |
| Berfenw/au<br>*(verb-noun/s)* |
| Treiglad/au<br>*(mutation/s)* |
| Ansoddair / Ansoddeiriau<br>*(Adjective/s)* |
| Llafariad/aid<br>*(vowel/s)* |
| Cytsain/ Cytseiniaid<br>*(consonant/s)* |
| Berf/au<br>*(verb/s)* |

| Ystyr |
|---|
| Gair sy'n dangos perthynas rhwng un person/peth a pherson/peth arall. |
| 7 llythyren yn y Gymraeg |
| gair sy'n disgrifio. |
| Pob llythyren arall yn yr wyddor heblaw am y 7 llythyren |
| Gair bach sy'n dangos meddiant rhywbeth. |
| Pan fydd llythyren gyntaf gair yn newid yn y Gymraeg |
| Gair sy'n dweud beth sy'n cael ei wneud, pwy sy'n gwneud a phryd. |
| Ffurf wreiddiol neu ystyr y ferf – enw'r gweithgaredd yn unig. |
| gair/geiriau sy'n rhoi mwy o wybodaeth inni am y ferf – pryd / sut?. Gall adferf dreiglo'n feddal. |

| Enghreifftiau |
|---|
| diddorol |
| eich fy ei |
| t,s,d,g,b,c,p,l,ch,rh |
| cerdded ysgrifennu |
| gwelais eisteddodd |
| a,e,i,o,u,w,y |
| yn gyflym |
| ar am dan |
| cap > fy nghap<br>pen > dy ben |



# Beth yw ‘rhannau ymadrodd’?

- Termau gramadegol sy’n ein helpu ni i wybod sut mae geiriau’n ymddwyn e.e. sut a pham maent yn treiglo, beth yw eu lleoliad mewn brawddeg a.y.y.b.

- Enghreifftiau: enw, berf



# Ymarfer sydyn

- Sawl rhan ymadrodd y gallwch chi feddwl amdanyn nhw? e.e. berf, enw…
- Ysgrifennwch nhw yn sgwrs ar Teams.



# Enw / Enwau *Noun/s*

Gair sy’n cael ei roi ar rywbeth er mwyn ei adnabod a gwybod **beth** ydyw.

Mae gan bob enw ffurf **unigol** a **lluosog** e.e. problem / problemau; plentyn / plant

Mae i bob enw yn y Gymraeg **genedl** h.y. mae pob enw naill ai yn **wrywaidd(eg)** neu'n **fenywaidd (eb)** e.e. y ward **hon**, y gwaith **hwn**.

Serch hynny, ceir rhai enghreifftiau sy'n gallu bod yn fenywaidd neu'n wrywaidd **(egb)** e.e. munud, llygad, cwpan.

# Geiriaduron defnyddiol i'r dosbarth cynradd…

























Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
RHAGORiaith
Canolfan Gwasanaethau Cymraeg
Welsh Language Services Centre
www.athrofa.cymru

# Geiriaduron defnyddiol i'r dosbarth uwchradd (ac i chi) …


















# Defnyddio geiriadur yn y dosbarth






# Defnyddio geiriadur yn y dosbarth




**cadair** *hon enw* (**cadeiriau**) sedd i un person CHAIR

# Defnyddio geiriadur yn y dosbarth






**cadair** hon *eb* (cadeiriau)
1 sedd â chefn a phedair coes ar gyfer un person; stôl CHAIR
2 (mewn enwau lleoedd) mynydd ar ffurf cadair, neu le cadarn neu gaer, e.e. *Cadair Idris*, *Pencadair* (sef Pencader)
3 pwrs, piw buwch neu ddafad neu afr UDDER
4 gwobr eisteddfodol i feirdd neu lenorion; yn yr Eisteddfod Genedlaethol rhoddir y gadair i un o brifeirdd yr ŵyl, y bardd sy'n ennill cystadleuaeth yr awdl CHAIR
5 swydd athro mewn prifysgol CHAIR (cadeiriol)
**cadair esmwyth** cadair fawr gyfforddus EASY CHAIR

# Enw / Enwau - *Noun/s*

**enw priod**

enw person, peth, iaith neu le arbennig e.e. William, Dafydd, Caerdydd, Ysgol y Wern, mis Mai, Y Pasg a.y.y.b.

Ceir **prif lythyren** ar ddechrau **enw priod** bob amser.

**enw torfol**

enw ar gasgliad o bobl neu bethau e.e. tyrfa, haid

**enw diriaethol**

enw ar rywbeth ‘real’ h.y rhywbeth y gallwn ni **gyffwrdd** ag e, e.e. bwrdd, cadair



**enw haniaethol**

enw ar rywbeth na allwn ni ei gyffwrdd, e.e. hapusrwydd, cariad

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales
RHAGORiaith
www.athrofa.cymru

# Rhagenw / Rhagenwau - *Pronoun/s*

Gair a ddefnyddir yn lle enw, e.e. fi, ti, fe, nhw, ninnau, hwn




Sylwch ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy frawddeg ganlynol:

Mae **Siân** yn hoff iawn o'i gwaith. (*enw)*

Mae **hi**'n hoff iawn o'i gwaith. *(rhagenw)*

# Eich cyfle chi ….

- Ysgrifennwch frawddeg yn defnyddio rhagenw yna nodwch eich brawddeg yn y sgwrs ar Teams…





# Ansoddair / Ansoddeiriau
# *adjective/s*

Gair sy'n disgrifio enw neu ragenw h.y. dweud **sut** beth ydyw.

e.e. sefyllfa **anodd**

pryder **mawr**

prydau bwyd **prydlon**

merch **hapus**

Fel arfer yn y Gymraeg mae'r ansoddair yn dod **ar ôl** yr enw. Serch hynny mae rhai sy'n digwydd fynychaf **o flaen** yr enw (sylwer y ceir treiglad meddal **ar ôl** ansoddair)

e.e. **hen** wers

**priod** waith

**annwyl** ferch

**unig** gyfle

**hoff** liw

# Cystadleuaeth …
# SAWL ANSODDAIR?

- Sawl ansoddair y gallwch chi feddwl amdanyn nhw? Ysgrifennwch ar y bwrdd gwyn!



# <u>Cysylltair / Cysyllteiriau</u>

## *Conjunction/s*

Gair sy'n **cysylltu** geiriau, cymalau neu frawddegau.




e.e. trefniadadau **a** chynlluniau
un **neu** ddau

Roedd John yn hwyr i'r gwaith **oherwydd** / **o achos** y ddamwain.

Aeth John yn ôl i'w sedd **ond** ni lwyddodd i gwblhau'r gwaith.

Mae hi'n brysur yma heddiw. Mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd.
> Mae hi'n brysur yma heddiw **ac** mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd.

# Gorffennwch y frawddeg ...

Rhedodd y bachgen i lawr y stryd ...






# Gorffennwch y frawddeg ...

Rhedodd y bachgen i lawr y stryd ... oherwydd



# Gorffennwch y frawddeg ...

Rhedodd y bachgen i lawr y stryd ...






# Gorffennwch y frawddeg ...

Rhedodd y bachgen i lawr y stryd ...






# Arddodiad / Arddodiaid *Preposition/s*

Beth yw **arddodiad / arddodiaid** ? (Preposition/s)

Gair sy'n dangos y berthynas rhwng un person neu beth a pherson neu beth arall. Yn aml, mae arddodiad yn disgrifio **ble mae** un peth mewn perthynas â rhywbeth arall.

e.e. Mae'r gwaith **ar** y ddesg.

Mae'r dysgwyr **yn** y dosbarth.

Mae'r ffeiliau **wrth** y drws.



# Bannod (Y Fannod)
# *the article*

**<u>Beth yw’r fannod?</u>**

Gair sy'n gwneud enw'n **benodol** yw bannod a cheir tair ffurf ar y fannod bendant yn y Gymraeg: **y, yr 'r** (sef **the** yn Saesneg). Ni cheir bannod amhendant yn y Gymraeg - h.y. ***a*** neu ***an*** yn Saesneg.




e.e. **y** bobl

**yr** amser a'**r** ymdrech

Mae'**r** disgybl yn gweithio’n gyson.

# Berfenw / Berfenwau
# *infinitive/s / verb-nouns*

**Beth ydy berfenw?**

Dyma ystyr neu enw'r ferf - enw'r gweithgaredd yn unig a geir e.e. ysgrifennu, darllen, gobeithio, nodi …

Mae'r berfenw'n ddau air yn Saesneg h.y. **to +** y ferf e.e. *to say, to think, to believe* a.y.y.b. ond yn y Gymraeg, dim ond y berfenw ei hun sydd ei angen, e.e. dweud, meddwl, credu …

Y berfenw sydd i'w gael yn y geiriadur.

# Berf/au - *verb/s*

**Beth ydy berf?**

Gair sy'n nodi **beth** sy'n cael ei wneud.

Mae berf yn cyflawni **tair** swyddogaeth - dangos **person** (fel arfer), **amser** a **gweithred**.




e.e. **gwelais**

y weithred yw **gweld**

**fi** yw'r person

**yn y gorffennol** y digwyddodd hyn

**<u>Geiriau i'w cofio:</u>**

**cwmpasog (y ffurf hir)** **-** y mae ef yn cerdded

**cryno (y ffurf fer)** **-** cerdda ef

# Berf/au - *verb/s*




Ceir chwe pherson i bob berf:

| UNIGOL | LLUOSOG |
|---|---|
| 1. fi | 1. ni |
| 2. ti | 2. chi |
| 3. ef/hi | 3. nhw |



# Goddrych a Gwrthrych Berf
*subject and object of the verb*

**GODDRYCH -** yr un sy'n gwneud y weithred (Subject)

**GWRTHRYCH -** yr un sy'n dioddef y weithred (Object)

Darllenodd y disgybl lyfr da ddoe.



y disgybl - **goddrych** (yr un sy'n gwneud y weithred)

llyfr da - **gwrthrych** (yr un sy'n dioddef y weithred)

# Rhowch gynnig arni!

Pa air yn y frawddeg ganlynol yw'r gwrthrych?

**Mae Alun yn mynd i'r siop.**

# Rhowch gynnig arni!

Pa air yn y frawddeg ganlynol yw’r gwrthrych?

**Aeth y disgybl at y pennaeth.**

# Rhowch gynnig arni!

Pa air yn y frawddeg ganlynol yw'r gwrthrych?

**Gwelodd y gath ddyn.**

# Rhowch gynnig arni!

Pa air yn y frawddeg ganlynol yw'r **goddrych**?

## Mae Alun yn mynd i'r siop.

# Rhowch gynnig arni!

Pa air yn y frawddeg ganlynol yw'r **goddrych**?

**Aeth y disgybl at y pennaeth.**

# Rhowch gynnig arni!

Pa air yn y frawddeg ganlynol yw'r **goddrych**?

## Gwelodd y gath ddyn.

# Tasg

Darllenwch y brawddegau ar y daflen a phenderfynwch beth yw'r goddrych a'r gwrthrych ym mhob un.

**YMARFER- GWRTHRYCH A GODDRYCH**
Darganfyddwch **wrthrych** y ferf a **goddrych** y ferf yn y brawddegau canlynol.

1. Taflodd y bachgen y garreg yn galed er mwyn torri'r ffenestr.
   Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________
2. Prynodd y ferch y sgert gyntaf a welodd yn y siop.
   Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________
3. Gwariais i fy arian i gyd yn y dref.
   Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________
4. Bydd yn rhaid i'r myfyrwyr weithio yn galed ar eu traethodau.
   Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________
5. Wil gnociodd y drws yn gofyn am gael gweld Tomos.
   Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________
6. Byddai Sian wrth ei bodd yn cael gweld y sioe
   Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________
7. Bloeddiodd yr athrawes ar y disgyblion.
   Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________
8. Mae plant bach yn agor eu anrhegion yn frysiog ar fore Nadolig.
   Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________
9. Gyrrodd y Gyrrwr y bws i'r ysgol ar frys.
   Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________
10. Gofalodd y meddyg yn ofalus am ei glaf.
    Gwrthrych: ____________ Goddrych: ____________

# CHWAP!



Ydych chi'n barod?

# Pa un yw'r enw?

ysgrifennu

cadair

# Pa un yw'r ansoddair?

disglair

gweld

# Pa un yw'r berfenw?

eistedd

cer

# Pa un yw'r berfenw?

bod

byddaf

# Pa un yw'r ferf?

cerddais

mynd

# Pa un yw'r cysylltair?

mae

neu

# <u>Adferf / Adferfau</u>

*adverb/s*



## <u>Beth ydy adferf / adferfau?</u>

Gair sy'n disgrifio **berf, ansoddair neu adferf arall.** Maent yn ateb y cwestiynau:

**Sut? Ble? Pryd? Pam?**

## <u>Enghreifftiau:</u>

penderfynwyd **yn unfrydol** (ychwnaegu at ein gwybodaeth am y ferf "penderfynu")

yn **eithaf** pwysig (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr ansoddair "pwysig")

unwaith **eto** (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr adferf "unwaith")

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales
RHAGORiaith
www.athrofa.cymru

# <u>Adferf / Adferfau</u>
# *adverb/s*

Gellir ffurfio adferf drwy roi **yn** o flaen ansoddair e.e.

Gweithiodd y pennaeth **yn gyflym**.

Mae **yn gyflym** yn disgrifio **gweithiodd** ac mae'n ateb y cwestiwn: **Sut?**

Cyrhaeddodd Huw y cyfarfod **yn hwyr.**

Mae **yn hwyr** yn disgrifio **cyrhaeddodd** ac yn ateb y cwestiwn: **Pryd?**

# Adolygu

https://quizizz.com/admin/quiz/5d7f9d4edd2b3b001ba6325a

# Gweddill y diwrnod...

- Unedau ar-lein gyda thasgau i'w cwblhau a dysgu cyfeiriol.

- Ble?  Moodle.

- 2 – 3pm:  Sesiwn galw mewn / tiwtor ar gael ar Teams (sianel 'general').

  Dewch i drafod!

# Moodle: Cymraeg i Bawb: Welsh Language Development Pathway-PGCE






**Gwela i chi wythnos nesaf ar y campws**

**5/10/23**

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
RHAGORIAITH
www.athrofa.cymru